| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD | 14 MEDI 2010 |
| TEITL YR ADRODDIAD | LEIN REILFFORDD - GAERWEN I AMLWCH |
| PWRPAS | EGLURO SEFYLLFA'R CYNGOR |
| ADRODDIAD GAN | PENNAETH GWASANAETH (PRIFFYRDD A RHEOLI GWASTRAFF) |
| GWEITHREDU | DERBYN YR ARGYMHELLIAD |

## 1.0 RHAGARWEINIAD

1.1 Fe gafodd y lein reilffordd o Gaerwen i Amlwch ei chau ar gyfer cludo teithwyr yn 1964 fel rhan o doriadau rheilffordd Dr Beeching, ond fe'i cadwyd ar agor ar gyfer cludo nwyddau i Octel yn Amlwch tan 1993.

## 2.0 DATBLYGIADAU ERS IDDI GAU

2.1 Ers 1993 cyflwynwyd amryfal gynigion ar gyfer agor y cyfan neu ran o'r lein i'w defnyddio un ai fel rheilffordd dreftadaeth neu fel trac beicio. Fodd bynnag, ni fu unrhyw ddatblygiadau a Network Rail sy'n dal i fod yn berchen ar y lein. Mae gordyfiant ar hyd y trac ac mae'r ffensys terfyn a'r strwythurau megis pontydd a waliau cynnal yn parhau i ddirywio gydag ychydig neu ddim gwaith cynnal yn cael ei wneud.

2.2 Yn y cyfarfod o'r Cyngor Sir ar 6 Mawrth 2007 penderfynwyd "mai'r opsiynau y mae'r Cyngor hwn yn eu ffafrio ar gyfer y Lein yw trac ar gyfer beicio, cerddwyr a llwybr ceffylau."

2.3 Ers y dyddiad hwnnw ailgodwyd gobeithion o ailagor y lein gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gwasanaeth trenau rhwng Bangor a Gaerwen a'r posibilrwydd o gael cyllid allanol preifat ar gyfer rheilffordd dreftadaeth rhwng Llangefni a Amlwch.

2.4 Yn y cyfarfod ar 7 Medi 2009 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith yn unfrydol o blaid gwasanaeth trenau rhwng Gaerwen a Llangefni ac y dylid mynd â'r mater i'r Cyngor Sir i adolygu ei benderfyniad gwreiddiol.

2.5 Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni mae’n ymddangos yn annhebygol iawn y bydd cyllid allanol ar gael i ailagor y rheilffordd ar gyfer beiciwyr,  cerddwyr neu fel llwybr ceffylau.

## 3.0 <u>ARGYMHELLIAD</u>

3.1 Yn wyneb datblygiadau diweddar, yr opsiwn y mae’r Cyngor Sir yn ei ffafrio ar gyfer defnyddio’r lein o Gaerwen i Amlwch yn y dyfodol yw ei bod yn cael ei hailagor i wasanaethau rheilffordd.

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)